Dŵr Cymru
Welsh Water

# Canllawiau ar gyfer Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs) - Datblygiadau Newydd (Maen Prawf Heb Wasanaeth)

dwrcymru.com

## Tabl Cynnwys


Diffiniadau....................2
1. Cyflwyniad....................3
2. Cynorthwyo ein Cwsmeriaid ar bob Cam yn y Broses....................3
3. Trosolwg....................4
4. Cymhwyster Safle....................4
4.1. Adolygiad o statws safle....................4
4.1.1. Adolygiad o statws safle ac Adroddiadau Annibynnol ar Statws Safle....................5
5. Cais am Swmpwasanaeth....................5
5.1 Gofynion o ran Gwybodaeth....................5
5.2. Y Datblygiad Arfaethedig....................6
5.2.1. Asesiad o'r Dyfodol Tebygol....................6
5.2.2. Asesiad o Effeithlonrwydd Dŵr....................7
5.3 Pwynt Cysylltu neu Ryddhau / Dyluniad Peirianegol....................7
5.4. Modelu Hydrolig y Rhwydwaith....................7
5.5. Asesiadau o Risg....................8
5.6. Prisiau Swmpwasanaethau a Thaliadau Cysylltu....................8
5.6.1. Taliadau Swmp....................8
5.6.2. Disgownt....................8
5.6.3 Taliadau am asedau....................9
5.6.4. Taliadau Seilwaith....................9
5.6.5 Seilwaith Cysylltiol....................9
5.6.6. Mesur Swmpwasanaethau....................9
5.7. Cytundebau Swmpwasanaethau....................9
5.8 Mabwysiadu Carthffosydd Mandadol....................9
5.9 Cysylltiadau â Charthffosydd....................10
5.10 Ceisiadau i fabwysiadu Asedau NAV....................10
6. Ar ôl Cyflwyno'r cais NAV i Ofwat....................10
7. Ar ôl Dyfarnu....................11
7.1. Pontio....................11
7.2. Rheoli'r Contract....................11
Atodiad A - Y Broses Ymgeisio....................0


## Rheoli Fersiynau

| Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Diwygiadau i'r cyhoeddiad blaenorol |
|---|---|---|
| V4.0 | 1 Ebrill 2020 | Diweddarwyd i adlewyrchu Lefelau Gwasanaeth Cymeradwy y Diwydiant. Dileu'r wybodaeth am daliadau, mae hyn mewn dogfen ar wahân am daliadau NAV. |
| V5.0 | 27 Ionawr 2021 | Newidiadau i'r testun i wneud y ddogfen yn gliriach. Diweddaru cyfeiriad e-bost. |
| V6.0 | 15 Mawrth 2021 | Diweddaru cyfeiriad y Swyddfa Gofrestredig a'r linciau i'r wefan. |
| V7.0 | Hydref 2021 | Ychwanegu Adran 5.9 |
| V8.0 | 18 Chwefror 2022 | Newid ffont y testun yn Adran 5.7, diwygio Adran 5.9 ac ychwanegu Adran 5.10 |
| V9.0 | 13 Mawrth 2024 | Ychwanegu Adran 5.6.3, diweddaru'r manylion cyswllt yn Adran 1 a diweddaru'r linciau i'r wefan. |

## Diffiniadau

Bydd gan y termau isod yr ystyron a bennir isod lle bynnag y maent yn cael eu defnyddio yn y Canllawiau hyn:

**Swmpgyflenwad:** Swmpgyflenwad o ddŵr o un cwmni dŵr penodedig i un arall neu ryddhau dŵr gwastraff swmp o un cwmni carthffosiaeth i garthffosydd cwmni carthffosiaeth arall.

**Swmpwasanaeth:** Gall NAV ddarparu ei seilwaith ei hun ar y safle, ond dibynnu ar swmpgyflenwad o ddŵr, neu ryddhau dŵr gwastraff swmp, o neu i rwydwaith y deiliad perthnasol. Mae'r NAV yn dal i wasanaethu'r Cwsmeriaid terfynol, ond bydd y NAV yn talu'r deiliad cyfredol am swmpwasanaethau.

**Cwsmer:** Penodai newydd neu penodai sydd am amrywio ei drwydded sy'n cyflwyno cais NAV am ddatblygiad newydd.

**DWI:** Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, sy'n gyfrifol am reoleiddio cyflenwadau dŵr cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Mae'r DWI yn gyfrifol am asesu ansawdd dŵr yfed, gan gymryd camau gorfodi os nad yw'r safonau'n cael eu bodloni, a chymryd camau priodol pan nad yw'r dŵr yn addas i'w yfed gan bobl.

**Ymgymerydd:** Cwmni a benodwyd o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**Maen Prawf Heb Wasanaeth:** Y maen prawf ar gyfer Cais NAV lle mae'r darpar NAV yn ymgeisio ar y sail nad oes yna gysylltiad dŵr a/neu garthffosiaeth y brif bibell ar y safle.

**Dŵr gwastraff** – Carthffosiaeth neu Garthffosiaeth a Dŵr Wyneb neu Dŵr Wyneb yn unig

**WIA91:** Deddf y Diwydiant Dŵr 1991

# Canllawiau ar gyfer Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs) - Datblygiadau Newydd (Maen Prawf Heb Wasanaeth)

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon (y "Canllawiau") yn cynnwys canllawiau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) i gynorthwyo Cwsmeriaid i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff ar gyfer Datblygiadau newydd yn ardal penodiad DCWW.

Mae'r Canllawiau'n darparu fframwaith i sicrhau bod pob Penodiad ac Amrywiad newydd (NAV) yn cael ei drin yn gyson ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol. Yn benodol, mae DCWW wedi ymrwymo i gyflawni nodau'r Gyfraith ar Gystadleuaeth a bodloni gofynion ein trwydded (h.y. atal gwahaniaethu amhriodol, blaenoriaethu amhriodol a chamddefnyddio gwybodaeth) gan gynnwys **Amod E1.**

Os oes unrhyw sylwadau neu arsylwadau gennych mewn perthynas â'r Canllawiau hyn, **cysylltwch â** legal@dwrcymru.com **gan farcio'r ohebiaeth er sylw'r Cwnsler Cyffredinol.**

## 2. Cynorthwyo ein Cwsmeriaid ar bob Cam yn y Broses

Dylid cyfeirio pob ymholiad gan Gwsmeriaid at Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu DCWW.

**Y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu**
**Dŵr Cymru Welsh Water**
**Blwch SP 3164, Caerdydd, CF30 0FF**
**Ff: 0800 260 5053**
**http://wholesale.dwrcymru.com**
**wholesaleservicecentre@dwrcymru.com**

Sefydlwyd mesurau rheoli mewnol er mwyn sicrhau bod Cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg a bod unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei thrin mewn ffordd briodol er mwyn osgoi dangos unrhyw flaenoriaeth amhriodol i unrhyw barti penodol. Mae yna wahaniad rhwng y timau sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cwsmer a'r rhai a allai fod yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol ar gyfer Datblygwr.

Caiff gwaith sy'n cael ei gomisiynu gan Gwsmer ei gyflawni yn ôl safonau gwasanaeth y diwydiant, neu lle bo hynny'n berthnasol, safonau perfformiad mewnol sydd â'r nod o ddarparu gwasanaethau Cwsmeriaid o safon sydd gyda'r gorau yn y diwydiant. Mae DCWW yn annog cwsmeriaid i ymgysylltu ac gam cynnar er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi yn ystod y broses cynllunio/adeiladu.

Mae'r Canllawiau hyn yn pennu'r gwaith y mae angen ei gyflawni a'r meini prawf allweddol y mae angen eu hystyried yng nghysylltiadau DCWW â darpar-Gwsmeriaid. Mae DCWW yn ymrwymo i ymateb i geisiadau gan Gwsmeriaid o fewn amserlenni lefelau gwasanaeth Ofwat a'r Diwydiant, a lle na allwn wneud hynny, byddwn ni'n darparu esboniad llawn a'r amserlen sy'n bosibl. Yn y Canllawiau hyn, rydyn ni wedi nodi'r amserlenni

arferol a fydd yn gymwys, a'n nod fydd ymateb o fewn yr amserlenni hyn lle bynnag y bo modd. Mae tabl sy'n amlinellu'r camau yn y broses ymgeisio ac amserlenni ymateb DCWW yn Atodiad A.

## 3. Trosolwg

Gwneir penodiad newydd pan fo Ofwat yn penodi cwmni cyfyngedig i ddarparu gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth ar gyfer ardal ddaearyddol benodol. Mae gan y penodai newydd yr un dyletswyddau a chyfrifoldebau â'r cwmni dŵr statudol blaenorol.

Amrywiad yw lle bo penodai cyfredol yn gofyn i Ofwat amrywio ei benodiad fel y gall ehangu'r ardaloedd y mae'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

Felly mae NAV yn golygu bod un cwmni'n cymryd lle un arall fel y penodai mewn ardal ddaearyddol benodol. Mae Ofwat yn darparu canllawiau ar gyfer Cwsmeriaid mewn perthynas â phenodiadau NAV, yn ogystal ag ar gyfer cwmnïau cyfredol sy'n ymateb i geisiadau NAV yn eu hardal, ac mae'r rhain ar gael trwy'r linc yma: www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/markets/nav-market/nav-publications/

## 4. Cymhwyster Safle

Er mwyn i Gwsmer wneud cais i wasanaethu safle Datblygiad newydd, rhaid iddo fodloni'r maen prawf canlynol:

- Y **Maen Prawf heb Wasanaeth**: Nid oes gan y safle gysylltiad cyfredol â'r brif bibell a/neu nid oes ganddo gysylltiad cyfredol â'r brif bibell garthffosiaeth.

### 4.1. Adolygiad o statws safle

O dan adran 7, i'w ddarllen ynghyd ag adran 36(3) o WIA91, nid yw oes gwasanaeth gan safle os nad oes unrhyw fan o fewn ardal y penodiad arfaethedig:

- Yn cael cyflenwad dŵr trwy gysylltiad â phrif bibell ddosbarthu'r cwmni dŵr cyfredol (yn achos cais i gyflenwi dŵr); neu
- Yn draenio i garthffos gyhoeddus neu ddraen ochrol sy'n eiddo i'r cwmni carthffosiaeth cyfredol (yn achos cais i ryddhau carthion)

Mae canllawiau Ofwat yn datgan, lle bo hynny'n briodol, y dylai'r Cwsmer gael adroddiad gan ymgynghorydd proffesiynol annibynnol sy'n dilysu statws y safle fel un nad yw'n derbyn gwasanaethau. Fel arall, os nad yw statws safle'n ddadleuol, gallai fod yn ddigonol i'r Cwsmer ddarparu manylion ffeithiol am y safle ar gyfer Ofwat, ynghyd â llythyr wedi ei lofnodi gan y penodai cyfredol sy'n cadarnhau nad yw'r safle'n derbyn gwasanaethau.

Lle'r ystyrir bod angen adroddiad annibynnol, gofynnir i'r Cwsmer a/neu ei ymgynghorydd proffesiynol annibynnol gynhyrchu map lliw sy'n dangos yn glir ffiniau'r safle, ac os yw'n hysbys, bodolaeth unrhyw un o'r canlynol:

- Y seilwaith dŵr cyfredol:
- Y seilwaith carthffosiaeth fudr cyfredol; a'r
- Seilwaith draenio dŵr wyneb cyfredol
- 

I hwyluso'r broses yma, bydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu'n darparu (heb godi tâl) dau gopi heb eu marcio o fap sy'n cwmpasu ardal y datblygiad arfaethedig (maint A1/A0) a/neu gopi electronig mewn fformat ffeil cyffredin ar gais.

### 4.1.1. Adolygiad o statws safle ac Adroddiadau Annibynnol ar Statws Safle

Lle bo angen adroddiad annibynnol o statws y safle, bydd DCWW yn cyfarfod â'r Cwsmer a/neu ei ymgynghorydd proffesiynol annibynnol ac yn darparu gwybodaeth am unrhyw asedau dŵr, carthffosiaeth neu ddraenio dŵr wyneb ar y safle yn ôl gofynion canllawiau Ofwat. Dylid cyflwyno ceisiadau am gyfarfodydd a gwybodaeth trwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu. Os yw'r ymgynghorydd proffesiynol annibynnol yn cyflwyno'r cais yn uniongyrchol, bydd angen i'r ymgynghorydd ddarparu llythyr awdurdodi gan y Cwsmer ar gyfer DCWW i gadarnhau bod DCWW yn cael rhannu'r wybodaeth.

Lle bo Cwsmer yn gofyn i DCWW am gadarnhad o statws safle, caiff hyn ei gyflawni naill ai fel astudiaeth desg, neu trwy arolwg o'r safle os oes angen, gan glustnodi cysylltiadau posibl a allai fod wedi cael eu hepgor o offer mapio DCWW e.e. cafnau dŵr anifeiliaid. Darperir cadarnhad o statws y safle ar gyfer y Cwmni cyn pen 21 diwrnod. Lle bo DCWW yn nodi cysylltiadau byw, darperir manylion y rhain ar gyfer y Cwsmer neu eu hymgynghorydd annibynnol, a chytunir ar unrhyw gamau sy'n deillio o hynny. Caiff cysylltiadau byw naill ai eu hepgor o ardaloedd y cais, neu bydd gofyn i'r Cwsmer ddarparu tystiolaeth i ddangos y caiff y cysylltiad ei ddileu'n barhaol cyn gwneud y penodiad/amrywiad. Mae yna reolau tynn o gylch datgysylltu safleoedd cyfredol, a bydd angen i DCWW fod yn fodlon bod y Cwsmer wedi cydymffurfio â chanllawiau Ofwat cyn cytuno ar statws heb wasanaeth y safle.

Mae proses adrodd Ofwat yn mynnu bod adroddiad drafft sy'n ymwneud â statws heb wasanaeth safle'r cais yn cael ei anfon at y penodai cyfredol cyn iddo gael ei gyflwyno i Ofwat i ategu ei gais. Nod y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu yw darparu ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad drafft cyn pen 5 diwrnod gwaith. Os yw DCWW yn fodlon ar statws heb wasanaeth y safle arfaethedig, darperir llythyr wedi ei lofnodi ar gyfer y Cwsmer sy'n cadarnhau cymhwyster y safle. Lle bo DCWW yn anghytuno â chanfyddiadau'r adroddiad, pennir y rhesymau pam y credir bod gwasanaeth ar y safle yn yr ymateb. Os na ddarperir adroddiad drafft ar gyfer DCWW cyn cyflwyno'r cais, bydd Ofwat yn rhannu adroddiad ar statws y safle adeg cyflwyno'r cais. Am fod hyn yn gallu achosi oedi, yn ddelfrydol, dylai'r Cwsmer rannu'r adroddiad drafft ar statws y safle ar unwaith pan fydd ar gael.

## 5. Cais am Swmpwasanaeth

## 5.1 Gofynion o ran Gwybodaeth

Gellir lawrlwytho ffurflenni cais o wefan y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu, a'u cyflwyno trwy e-bost i WholesaleServiceCentre@dwrcymru.com. Er mwyn sicrhau y gall DCWW ddarparu cyngor cynhwysfawr am y safle ar gyfer y Cwsmer, dylid cyflwyno'r wybodaeth a geisir ar y ffurflen gyda'r ymholiad.

Bydd y Gwasanaeth Cyfanwerthu'n ymateb i'r Cwsmer cyn pen 5 diwrnod gwaith i gydnabod bod y cais wedi dod i law a chadarnhau a yw'r cais yn gyflawn neu a oes angen rhagor o wybodaeth cyn y gellir bwrw ymlaen ag ef.

Anfonir cynnig swmpgyflenwi at y Cwsmer cyn pen cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau naill ai i) ar y dyddiad pan ddaw'r cais cyflawn i law, neu (ii) os yw'r cais yn anghyflawn a/neu os nad oes taliad wedi dod i law gyda'r cais, y diwrnod ar ôl i'r wybodaeth ofynnol a'r taliad ddod i law. Lle na allwn wneud hynny, byddwn ni'n cynnig esboniad llawn ac yn nodi'r amserlen sy'n bosibl.

## 5.2. Y Datblygiad Arfaethedig

Bydd DCWW yn: asesu effaith y datblygiad arfaethedig, yn cynghori a all y rhwydwaith lleol ymdopi â'r cynnig; a fydd angen darparu prif bibellau dŵr a/neu garthffosiaeth oddi ar y safle; ac a oes yna unrhyw offer o fewn y tir yr hoffai'r Cwsmer ei ddatblygu a'r gofynion ar gyfer yr offer yma. Cyfeiriwch at ein dogfen Canllawiau ar Ddatblygiadau Arfaethedig sydd ar gael yma. Bydd y cyngor a ddarperir yn ddilys am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad cyhoeddi.

Bydd DCWW yn darparu'r gwasanaeth yma yn rhan o'r cynnig Swmpwasanaeth neu fel gwasanaeth ar ei ben ei hun os bydd y Cwsmer yn gofyn am hynny.

### 5.2.1. Asesiad o'r Dyfodol Tebygol

Mae Adrannau 40 ac 110A o WIA91 (swmpgyflenwadau dŵr a charthffosiaeth) yn gofyn bod ymgymerwyr yn ystyried effaith unrhyw geisiadau newydd am gysylltiad gan NAVs neu Ddatblygwyr ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer ei Gwsmeriaid cyfredol a Chwsmeriaid tebygol y dyfodol. Bydd DCWW yn cyflawni 'asesiad o'r dyfodol tebygol' er mwyn pwyso a mesur effaith safle'r Cwsmer ar reoli'r galw am ddŵr a/neu ar y dalgylch carthffosiaeth. Bydd y broses yn sefydlu a fyddai'r cais arfaethedig yn:

- Peri risg i allu DCWW i ddarparu'r gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth cyfredol:
- Andwyol i'r cysylltiad a gynigir i safleoedd datblygu sydd â chaniatâd cynllunio ar glawr eisoes; neu
- Tynnu costau na fyddai wedi cael eu tynnu pe na bai'r safle NAV wedi digwydd.

Y pwynt cychwyn yw asesu'r holl ddatblygiadau â chaniatâd cynllunio ar glawr yn yr un parth/dalgylch â safle'r cais NAV. Bydd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw geisiadau byw am swmpgyflenwad annomestig ac elifion masnachol. Os taw'r unig safle â chaniatâd cynllunio ar glawr yw safle'r cais am NAV (ac nad oes yna geisiadau annomestig byw) yna'r gwaelodlin ar gyfer asesu capasiti fydd y galw cyfredol sydd ar yr asedau. Ym mhob achos arall, bydd y gofyn i'r NAV ariannu'r gwaith angenrheidiol i ategu'r ased (sy'n gyson â'r asesiad o hyblygrwydd a ddefnyddir ar gyfer cwsmeriaid datblygu) a fydd yn cynnwys:

- y galw cyfredol (gan gynnwys unrhyw geisiadau byw am swmpgyflenwad annomestig/elifion masnachol);
- y galw o du'r caniatâd cynllunio sydd ar glawr eisoes; a

- safle'r cais NAV.

### 5.2.2. Asesiad o Effeithlonrwydd Dŵr

Mae Adran 40 o WIA91 yn ymwneud â defnyddio adnoddau dŵr yn effeithlon rhwng ymgymerwyr dŵr. Bwriedir i'r asesiad o effeithlonrwydd dŵr sicrhau taw dim ond dŵr sydd ei angen i gynorthwyo'r Cwsmer a'r gofynion y gellir eu disgwyl yn rhesymol ar sail y nifer a'r mathau o gysylltiadau a bennir yn y ceisiadau cynllunio sydd ar glawr a gedwir wrth gefn o dan unrhyw gytundeb swmpgyflenwi at y dyfodol. Amcan DCWW yw dangos defnydd effeithlon o adnoddau dŵr er mwyn sicrhau nad yw'r capasiti yn cael ei gadw wrth gefn heb gyfiawnhad mewn cytundebau swmpgyflenwi sy'n atal cwsmeriaid rhag fanteisio ar yr hyblygrwydd sydd ar gael gan arwain at fuddsoddiad diangen. Nod DCWW yw cydweithio â'r Cwsmer i sicrhau bod y cyflenwad a geisir yn ddefnydd effeithlon o adnoddau dŵr.

## 5.3 Pwynt Cysylltu neu Ryddhau / Dyluniad Peirianegol

Bydd yr adolygiad o'r datblygiad arfaethedig yn rhoi syniad o ran a all y rhwydweithiau cyfredol ddarparu ar gyfer y datblygiad newydd. Mae'n bosibl y bydd yna achosion lle nad oes gan yr asedau'r capasiti i wasanaethu'r safle, a bydd angen modelu hydrolig er mwyn cyrchu'r opsiynau sydd ar gael. Disgrifir hyn yn 5.4 isod.

Lle gall y rhwydwaith cyfredol ddarparu ar gyfer y datblygiad, darperir ateb peirianegol manwl ar gyfer y cysylltiad neu'r pwynt rhyddhau (os oes angen) adeg talu'r blaendal. Mae ein dogfen Gwybodaeth am Daliadau ar gyfer NAVs yn nodi swm y blaendal a chaiff y swm ei dynnu o gost derfynol y cynllun.

## 5.4. Modelu Hydrolig y Rhwydwaith

Bydd yr adolygiad o'r datblygiad arfaethedig yn rhoi syniad o ran a all y rhwydweithiau cyfredol ddarparu ar gyfer y datblygiad newydd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yna achosion lle nad oes gan yr asedau y capasiti i wasanaethu'r safle, a bod angen modelu hydrolig i asesu'r opsiynau sydd ar gael. Gallai fod yn anodd ymrwymo i ddyddiadau cyflawni penodol, yn arbennig yn achos datblygiadau mwy o faint a mwy cymhleth. Dylid nodi y bydd angen digon o amser i'r astudiaethau hyn gael eu cyflawni cyn cwblhau'r cynnig o ran swmpwasanaethau.

Mae'n bosibl y bydd yna achosion lle mae perchennog y safle eisoes wedi comisiynu gwaith modelu ac mae'r astudiaeth wedi cael ei chyflawni'n rhannol neu'n llwyr. Yn yr achosion hynny, bydd DCWW yn gofyn i'r Cwsmer ddarparu awdurdodiad gan berchennog y safle i ryddhau'r gwaith yma.

Mae'r dull yma mewn tri cham yn pennu sut i gomisiynu gwaith i gadarnhau'r pwynt cysylltu/rhyddhau, ac amcangyfrif o gost unrhyw waith y mae angen ei gyflawni i ategu'r rhwydwaith. Pennir y rhestr o daliadau yn ein dogfen Gwybodaeth am daliadau ar gyfer NAVs.

**Cam 1** yw'r ***dyfynbris modelu***, a fydd yn clustnodi cwmpas a chost y gwaith modelu y mae angen ei gyflawni. Bydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu'n darparu amlinelliad o'r gwaith y mae angen ei gyflawni ar gyfer y Cwsmer, amcangyfrif o'r gost, ac amserlenni bras lle bo modd. At ddibenion amcangyfrifon modelu dŵr, nod y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu yw ymateb cyn pen 5 diwrnod gwaith. Am fod modelu hydrolig dŵr

gwastraff yn broses gymhleth, gall amcangyfrifon gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith. Wedyn mae gan y Cwsmer 6 mis i benderfynu a ddylid derbyn y dyfynbris yma a chyfarwyddo DCWW i gyflawni'r gwaith modelu ai peidio. Mae'r dyfynbrisiau'n ddilys am 6 mis, a rhaid talu cyn cyflawni'r gwaith.

**Cam 2** Ar ôl derbyn taliad am amcangyfrif o bris y gwaith modelu hydrolig, bydd DCWW yn cyflawni astudiaeth modelu ac yn cyhoeddi ***adroddiad modelu hydrolig.*** Bydd hyn yn pennu effaith y swmpgyflenwad ar y rhwydwaith a'r gweithfeydd trin, ac yn nodi a ellir cynnig pwynt cysylltu/rhyddhau heb fuddsoddi yn asedau trin neu rwydwaith DCWW. Lle bo angen buddsoddi, bydd yn manylu ar yr asedau y mae angen buddsoddi ynddynt ac yn nodi a fydd angen prif bibellau a charthffosydd newydd i gysylltu rhwng ffin safle'r Cwsmer a man cysylltu addas ar rwydwaith DCWW. Caiff amcangyfrif lefel uchel o'r gost ei ymgorffori i'r adroddiad, a bydd canlyniadau'r model yn ddilys am 6 mis.

**Cam 3** yw ***dylunio'r peirianneg.*** Os yw'r Cwsmer yn penderfynu bwrw ymlaen, y cam olaf fydd comisiynu ateb peirianegol manwl ar gyfer y cysylltiad. Wrth gyflwyno cais am ddylunio peirianneg, nod y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu yw ymateb cyn pen 5 diwrnod gwaith, naill ai i gadarnhau bod y wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law i gyflawni'r gwaith dylunio, neu i ofyn am wybodaeth bellach os oes angen. Ar ôl cadarnhau bod y cais yn gyflawn, nod y Ganolfan Gwasanaethau Adwerthu yw darparu ymateb cyn pen 28 diwrnod gwaith. Bydd yr ymateb yma'n cynnwys cynnig ffurfiol am swmpwasanaethau. Bydd angen talu blaendal fel a ddisgrifir yn ein dogfen Gwybodaeth am daliadau ar gyfer NAVs, a gaiff ei dynnu o gost derfynol y cynllun.

## 5.5. Asesiadau o Risg

Er mwyn caniatáu i Gwsmer gyflwyno ei asesiad o risg i'r DWI, dylid gofyn am unrhyw wybodaeth asesu risg sydd ei hangen trwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu. Nod y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu fydd dychwelyd y wybodaeth i'r Cwsmer cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais ddod i law. Gellir cymhwyso hyn unrhyw bryd, a bydd yn rhedeg ar y cyd â'r Camau eraill yn y Broses Ymgeisio.

## 5.6. Prisiau Swmpwasanaethau a Thaliadau Cysylltu

### 5.6.1. Taliadau Swmp

Darperir y pris a'r telerau eraill ar gyfer y cytundeb swmpwasanaeth yn rhan o'r cynnig Swmpwasanaeth, a bydd hyn yn cynnwys taliadau cysylltu a chost unrhyw waith y mae angen ei gyflawni ar rwydweithiau a gweithfeydd trin DCWW oddi ar y safle er mwyn darparu'r gwasanaethau angenrheidiol. Bydd y cynnig yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael adeg cyflwyno'r cais, a gallai newid.

Disgrifir y fethodoleg y mae DCWW yn ei ddefnyddio i gyfrifo taliadau dangosol ar gyfer swmpgyflenwadau yn ein dogfen Gwybodaeth am daliadau ar gyfer NAVs.

### 5.6.2. Disgownt

Gall DCWW gymhwyso disgownt yn erbyn costau cyfalaf ac ariannu'r gwaith y mae angen ei gyflawni i ategu rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth cyfredol DCWW. Cyfrifir gwerth y disgownt yn seiliedig ar y refeniw swmpgyflenwi / rhyddhau swmp a ragwelir yn rhesymol ar gyfer y safle. Lle bo'r refeniw a ragwelir yn wahanol i'r wybodaeth sylfaenol a nodwyd ar gyfer y safle (er enghraifft y caniatâd cynllunio sydd ar glawr neu

ddatblygiad y safle), mae DCWW yn cadw'r hawl i addasu gwerth y disgownt trwy addasu'r refeniw a ragwelir o swmpgyflenwi/rhyddhau swmp. Rhaid i'r trefniadau masnachol ar gyfer y gwaith ategu gael eu cymeradwyo a bod yn eu lle cyn i unrhyw waith gael ei gyflawni.

### 5.6.3 Taliadau am asedau

Yr ymgymerydd dŵr sy'n rhan o'r cytundeb hunan-osod sy'n gyfrifol am dalu unrhyw daliadau sy'n ddyledus am asedau.

### 5.6.4. Taliadau Seilwaith

Bydd disgwyl i'r cwsmer gasglu'r taliadau seilwaith perthnasol sy'n codi mewn perthynas â phob un o'r eiddo newydd ar safle'r cais o dan sylw. Mae taliadau seilwaith yn daladwy i'r penodai newydd adeg rhyddhau'r cyflenwad – hynny yw, adeg cyflawni'r cysylltiad am y tro cyntaf.

### 5.6.5 Seilwaith  Cysylltiol

Bydd DCWW yn modelu'r atebion seilwaith i gydategu'r cysylltiad NAV a bydd yn ystyried ceisiadau i gyflawni'r gwaith cyfalaf angenrheidiol i adeiladu'r brif bibell gyswllt neu'r garthffos hyd at y pwynt cysylltu dynodedig fesul achos unigol (yn arbennig am ei bod yn bosibl na fydd gan DCWW y pwerau statudol i gyflawni'r gwaith yma).

### 5.6.6. Mesur Swmpwasanaethau

Gall DCWW osod swmpfesuryddion ar bwyntiau cyflenwi ar ffin y safle NAV i'w defnyddio at ddibenion codi tâl a rheoli'r rhwydwaith ehangach.

## 5.7. Cytundebau Swmpwasanaethau

Dylai cytundeb Swmpwasanaeth fod mewn grym cyn i Ofwat ddyfarnu NAV. Bydd DCWW yn defnyddio Cytundebau Safonol WaterUK fel sail ar gyfer unrhyw Gytundeb Swmpgyflenwi neu Ryddhau, a chaiff y newidiadau eu hadlewyrchu yn yr Amodau Arbennig fel y bo'n briodol ar gyfer trefniadau penodol pob safle unigol. Mae'r cytundebau hyn ar gael yma.

Bydd y trafodaethau am gytundeb swmp yn dechrau yn ystod y broses o Ymgeisio am Swmpwasanaeth.   Bydd cynigion am swmpwasanaethau'n amodol ar y ddau barti'n cytuno ar delerau'r contract, a llwyddiant y cais. Bydd DCWW yn darparu llythyr o gefnogaeth ar gyfer y NAV lle bo hynny'n briodol, ac yn darparu unrhyw fanylion a allai fod yn berthnasol i Ofwat er mwyn i Ofwat ystyried eu cais am NAV.

## 5.8 Mabwysiadu Carthffosydd Mandadol

Mae Adran 106 o WIA91 (am fod y ddarpariaeth hon yn berthnasol i Ymgymerwyr Carthffosiaeth sy'n 'gyfangwbl neu'n bennaf yng Nghymru') yn gofyn bod unrhyw garthffosydd newydd a fydd yn cysylltu â charthffos gyhoeddus gyfredol DCWW (boed hynny yn y rhan o'n hardal weithredu sydd yng Nghymru nei Loegr) mewn cytundeb mabwysiadu carthffos o dan Adran 104 o WIA91 gyda DCWW cyn bod y gwaith adeiladu'n dechrau, hyd yn oes os yw'r safle'n amodol ar gais am NAV.   Nid oes gan DCWW unrhyw allu i

gynnig hyblygrwydd o fewn y gofyniad cyfreithiol yma. Dim ond os bydd NAV yr ystyrir ei fod 'yn gyfangwbl neu'n bennaf yn Lloegr' yn cael ei benodi ar gyfer y safle y bydd y gofyniad cyfreithiol yma'n diflannu.

Rhaid i unrhyw bibell garthffosiaeth a osodir cyn penodi'r NAV, h.y. o fewn ardal benodi DCWW, yn ogystal â bod yn destun cytundeb mabwysiadu carthffos o dan Adran 104, gydymffurfio hefyd â Safonau Gweinidogion Cymru ar gyfer Carthffosydd Budr a Draeniau Ochrol dan rym Disgyrchiant.

## 5.9 Cysylltiadau â Charthffosydd

Os yw system garthffosiaeth arfaethedig yn ardal penodiad NAV (dŵr budr neu ddŵr wyneb) yn un preifat (e.e. wedi ei adeiladu gan ddatblygwr), yna bydd cysylltu hyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r garthffos gyhoeddus gyfredol yn amodol ar gyflwyno hysbysiad o dan Adran 106 o WIA 91, gan gynnwys cydymffurfio â darpariaethau adran 106B WIA91 lle mae'r garthffos gyhoeddus gyfredol o fewn ardal ymgymerydd carthffosiaeth sy'n gyfangwbl neu'n bennaf yng Nghymru, h.y. ardal DCWW.  Ni all DCWW awdurdodi'r cysylltiad oni bai:-

- Bod y system garthffosiaeth arfaethedig (yr holl garthffosydd, draeniau ochrol ac ati cyn adeiladu) yn amodol ar gytundeb mabwysiadu carthffos o dan Adran 104
- Rhaid i'r cytundeb mabwysiadu Adran 104 gynnwys darpariaeth am i'r mabwysiadu ddigwydd yn awtomatig adeg digwyddiadau penodol
- Rhaid i bob carthffos fudr a draen ochrol gydymffurfio â safonau Gweinidogion Cymru ar gyfer carthffosydd budr.

Mae unrhyw gysylltiad â'r garthffos gyhoeddus sy'n cael ei gyflawni heb gydymffurfio â'r gofynion hyn yn drosedd o dan Adran 109 o WIA9, ac nid oes unrhyw statws cyfreithiol gan unrhyw garthffosydd neu ddraeniau ochrol sy'n cael eu hadeiladu heb gytundeb mabwysiadu carthffos (asedau rhwng dwy stôl yw'r rhain).

## 5.10 Ceisiadau i fabwysiadu Asedau NAV

Safbwynt safonol DCWW yw bod y NAV, fel ymgymerydd ar gyfer ei ardal,  â'r un dyletswyddau a chyfrifoldebau â'r cwmni sydd eisoes yn gweithredu yn yr ardal honno, yn mabwysiadu, yn gweithredu ac yn cynnal yr asedau o fewn ardal ei benodiad. Dim ond o dan amgylchiadau neilltuol lle byddai hynny er budd gorau cwsmeriaid DCWW yn gyffredinol, y byddem yn ystyried mabwysiadu asedau a adeiladwyd o fewn ardal penodiad y NAV (er budd cwsmeriaid y NAV). Mewn sefyllfaoedd fel hyn, byddem yn ystyried ceisiadau gan NAV fesul achos unigol (yn seiliedig ar yr holl wybodaeth berthnasol).

# 6. Ar ôl Cyflwyno'r  cais NAV i Ofwat

Ar ôl cyflwyno'r cais NAV i Ofwat, rhaid anfon Hysbysiad Adran 8(2) at y rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys penodai cyfredol y safle o dan sylw, cyn pen 14 diwrnod calendr. Dylid anfon yr hysbysiad i'r cyfeiriad cofrestredig a bennir isod:

Ysgrifennydd y Cwmni
Dŵr Cymru Welsh Water
Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 OLT

Gofynnir hefyd bod copi o'r hysbysiad yn cael ei anfon trwy e-bost i WholesaleServiceCentre@dwrcymru.com

## 7. Ar ôl Dyfarnu

### 7.1. Pontio

Pan fydd Ofwat wedi cadarnhau bod y NAV wedi ei ddyfarnu i'r Cwsmer, bydd DCWW yn cynorthwyo'r penodai newydd trwy berson cyswllt penodol o fewn y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu. Cytunir ar drefniadau pontio er mwyn sicrhau:

- Bod contractau swmpwasanaeth yn cael eu gweithredu;
- Bod cysylltiadau ffisegol â rhwydweithiau DCWW yn cael ei hwyluso;
- Bod trefniadau bilio'n cael eu sefydlu.

Caiff y rheolau a sefydlwyd i gynnal cyfrinachedd rhwng y Gwasanaethau Datblygu a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu yn ystod y broses ymgeisio eu llacio, gan bontio'r bwlch i'r penodai o fod yn gystadleuydd i fod yn Gwsmer ('Egwyddor Cystadleuwyr' Ofwat). Mae hyn yn hwyluso'r defnydd o adnoddau gwybodus a'r sgiliau a'r adnoddau a chefndir ym maes y diwydiant datblygu i gynorthwyo'r penodai newydd i gysylltu â rhwydwaith DCWW.

### 7.2. Rheoli'r Contract

Darperir cymorth parhaus, gan gynnwys bilio, casglu taliadau a darllen mesuryddion trwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu. Gellir rhyddhau gwasanaethau rheoli contractau wedi eu teilwra i Gwsmeriaid hefyd ar gais.

## Atodiad A - Y Broses Ymgeisio

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r gwahanol gamau yn y broses ymgeisio. Mae'n bosibl y bydd y ffrydiau gwaith yn rhedeg yn baralel â'i gilydd, a dylid dehongli'r tabl yma fel cyfres o dasgau yn hytrach na llif gwaith llinol. Bydd graddfa'r gorgyffwrdd yn dibynnu'n helaeth ar y cyfarwyddiadau a geir gan y Cwsmer.

| Cam | Proses Allweddol | Proses | Amser Ymateb |
|---|---|---|---|
| **1** | **Adolygu statws safle** | DCWW yn ymgysylltu â'r Cwsmer ac yn cadarnhau statws heb wasanaeth neu â gwasanaeth y safle, neu DCWW yn darparu'r wybodaeth a geisir ar gyfer ymgynghorydd annibynnol. | 21 diwrnod |
| **2** | **Cais am Swmpwasanaeth** | Y Cwsmer yn cyflwyno ffurflen gais, a DCWW yn cydnabod ei bod wedi dod i law ac yn cadarnhau a yw'n gyflawn ai peidio. | 5 diwrnod busnes |
| **2** | **Cynnig swmpwasanaeth** | Bydd DCWW yn darparu cynnig swmpwasanaeth a fydd yn darparu'r wybodaeth ganlynol:<br>• Y Datblygiad Arfaethedig - Cadarnhad o'r gofyniad swmpwasanaeth, gan gynnwys cyfraddau llif / rhyddhau uchaf;<br>• Gwasanaethau - Cadarnhau'r gwasanaethau a'r capasiti sydd ar gael;<br>• Cysylltu –- Manylion y pwynt cysylltu parhaol a chostau cysylltu. Manylion trefniadau dros dro, fel cyfyngiadau dros dro ar gapasiti, pwyntiau cysylltu dros dro a gwybodaeth ddangosol am unrhyw waith ategu y mae angen ei gyflawni, ac<br>• Amodau a thelerau masnachol - Y costau cysylltu perthnasol, costau cyfalaf ac ariannu'r gwaith y mae angen ei gyflawni i ategu rhwydweithiau a gweithfeydd trin cyfredol DCWW, taliadau seilwaith, taliadau swmp a chytundebau swmp safonol. | 28 diwrnod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2 | **Dyfynbris modelu hydrolig (os oes angen)** | Os oes angen modelu hydrolig, darperir amcangyfrif o'r gost o fodelu'r ateb. Mae DCWW yn anelu at ddarparu dyfynbrisiau dŵr cyn pen 5 diwrnod busnes, a dyfynbrisiau dŵr gwastraff cyn pen 20 diwrnod busnes. | 5-20 diwrnod busnes |
| | **Astudiaeth modelu hydrolig (os oes angen)** | Astudiaeth modelu ac adroddiad modelu hydrolig i ddangos a oes capasiti gan y rhwydwaith neu a oes angen buddsoddi. Ar ôl cwblhau'r astudiaeth modelu a chadarnhau bod y Cwsmer am i DCWW fwrw ymlaen i'r gwaith Dylunio Peirianegol, darperir y cynnig Swmpwasanaeth cyn pen 28 diwrnod fel uchod. | Mae hyn yn dibynnu ar y modelu sydd ei angen |
| | **Asesu risg** | Lle bo ar gwsmer angen gwybodaeth am gynlluniau diogelwch dŵr yfed DCWW er mwyn cyflwyno asesiad risg boddhaol i'r DWI, nod DCWW fydd ymateb gyda'r wybodaeth a geisiwyd cyn pen 15 diwrnod gwaith. | 15 diwrnod busnes |
| 3 | **Cytundebau swmpwasanaeth** | Cytundeb swmpwasanaeth safonol wedi ei lofnodi a'i rannu â'r NAV cyn pen 28 diwrnod sy'n dechrau naill ai (i) ar y diwrnod ar ôl i'r NAV dderbyn y cynnig swmpwasanaeth yn ysgrifenedig neu (ii) ar y diwrnod ar ôl cytuno ar delerau ansafonol.<br><br>Cydnabod y cytundeb wedi ei lofnodi a ddychwelwyd. | 28 diwrnod<br><br>5 diwrnod |
| 4 | **Swmpgysylltiad (ar ôl talu)** | Adeiladu prif bibellau oddi ar y safle<br>Adeiladu carthffos oddi ar y safle<br>Darparu cysylltiad a chyflenwad dŵr i'w brofi<br>Darparu cyflenwad parhaol o ddŵr | 90 diwrnod<br>180 diwrnod<br>28 diwrnod<br>14 diwrnod |